# Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru 2020

**Paratowyd gan y tîm Dulliau Rheoleiddio Dŵr, Tir, Bioamrywiaeth a'r Môr**

# Cyflwyniad

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu edrych ar ôl yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a chynnig dyfodol gwell i bawb.

Rydym yn monitro gweithgareddau cwmnïau dŵr er mwyn lleihau'r effaith y mae eu hasedau a'u gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. Rydym yn gwneud hyn drwy wirio eu perfformiad amgylcheddol drwy gydol y flwyddyn mewn meysydd fel lleihau digwyddiadau llygredd, cydymffurfio â thrwyddedau, a chyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru yng Nghymru ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio gweithrediadau Dŵr Cymru yn Lloegr; felly, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cyfrannu at y broses asesu perfformiad a'r adroddiad hwn. Mae'r holl ddata a adroddir yn yr adroddiad hwn ar gyfer perfformiad Dŵr Cymru fel cwmni cyfan ac felly mae wedi'i gyfuno ar gyfer Cymru a Lloegr. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Hafren Dyfrdwy, y gallwch ei weld ar ein gwefan.

## Cynnwys yr adroddiad

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol hwn i amlinellu perfformiad Dŵr Cymru Welsh Water[1] ("Dŵr Cymru"); mae'r adroddiad mewn dwy ran. Y cyntaf yw lle yr ydym yn asesu perfformiad y cwmni yn erbyn y chwe metrig yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i safoni ledled Cymru a Lloegr er mwyn i berfformiad y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf gael ei fonitro a'i asesu mewn ffordd gyson gan y rheoleiddwyr amgylcheddol, sef Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Yr ail ran yw lle yr ydym yn monitro ac asesu perfformiad meysydd gwaith allweddol eraill na chwmpesir gan fetrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cwmpasu pob agwedd ar reoleiddio cwmni dŵr.


- Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol Dŵr Cymru — Tudalen 2-12
- Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru — Tudalen 13-17
- Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2021 — Tudalen 18
- Atodiadau — Tudalen 19-22


[1] Gwybodaeth Tŷ'r Cwmnïau: DWR [sic] CYMRU CYFYNGEDIG, rhif cwmni 02366777, cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Linea, Fortran Road, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0EY.

# Rhan 1: Asesiad Perfformiad Amgylcheddol 2020 Dŵr Cymru

Yn 2020, llwyddodd Dŵr Cymru i ennill statws gwyrdd ar draws pob un o chwe metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol am y tro cyntaf, sydd hefyd yn golygu bod y cwmni wedi cyflawni'r statws 'arwain y diwydiant' uchaf (4-seren) am y tro cyntaf.

Gosodwyd trothwyau metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2020 yn 2015; adolygir y trothwyau bob pum mlynedd er mwyn ysgogi gwelliannau'n barhaus. Gan mai 2020 oedd blwyddyn olaf cyfnod pum mlynedd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2015-20), mae'n gadarnhaol gweld bod Dŵr Cymru yn gallu cyrraedd statws 'arwain y diwydiant' ar draws yr holl fetrigau. Dyma grynodeb o berfformiad Dŵr Cymru:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Canlyniad 2020 | Wedi'i gymharu â'r perfformiad blaenorol |
|---|---|---|
| Metrig 1: Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth) | **21.3** (Gwyrdd) | Gwyrdd am y tro cyntaf |
| Metrig 2: Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth) | **0.3** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Metrig 3: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr) | **99.7%** (Gwyrdd) | Gwyrdd am y tro cyntaf ers 2016 |
| Metrig 4: Hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd | **80%** (Gwyrdd) | Wedi symud yn ôl i wyrdd ar ôl cwympo i oren am flwyddyn |
| Metrig 5: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol | **100%** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Metrig 6: Mynegai diogelwch cyflenwad | **100** (Gwyrdd) | Wedi aros yn wyrdd |
| Sgôr seren gyffredinol y cwmni | **4-seren** | 4-seren am y tro cyntaf |

Allwedd: Statws metrig

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Perfformiad yn well na'r targed |
| Melyn | Perfformiad yn agos at, neu ychydig yn is, na'r targed |
| Coch | Perfformiad ymhell o dan y targed |

Allwedd: Sgôr seren gyffredinol y cwmni

| | |
|---|---|
| 4-seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3-seren | Cwmni da |
| 2-seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1-seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |

# Prif negeseuon ar berfformiad

Roedd 2020 yn flwyddyn enwedig o heriol yn sgil pandemig y coronafeirws gyda'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn newid y ffordd yr ydym yn byw a gweithio yn sylweddol. Fodd bynnag, gwnaeth y cwmni a'r rheoleiddwyr gynnal y gallu i fonitro asedau ac ymateb i ddigwyddiadau llygredd. Gwelwyd 2020 y dechrau sychaf i'r gwanwyn yng Nghymru (Ebrill a Mis) ers i gofnodion ddechrau yn 1910, a oedd yn cyd-daro â dechrau'r cyfyngiadau symud, gan gynyddu'r galw am ddefnydd dŵr domestig yn sylweddol. Cynhaliom gysylltiad da â chwmnïau dŵr wrth i gyfyngiadau'r pandemig gael eu diweddaru i sicrhau nad oedd effeithiau'r pandemig yn y tymor byr a'r tymor hir yn effeithio ar y gweithlu a rhaglenni gwaith.

Fel y crynhowyd eisoes ar dudalen 2, cyflawnodd Dŵr Cymru berfformiad gwell na'r targed (gwyrdd) ar draws pob un o'r chwe metrig yn 2020:

- Metrig 1: Cyfanswm y digwyddiadau llygredd carthffosiaeth (categori 1-3) oedd yr isaf hyd yn hyn, felly arhosodd yn wyrdd
- Metrig 2: Roedd un digwyddiad llygredd carthffosiaeth difrifol, felly arhosodd y metrig hwn yn wyrdd
- Metrig 3: Gwelwyd y perfformiad gorau hyd yn hyn hefyd o ran cydymffurfiaeth ag amodau trwyddedau ansawdd dŵr rhifol, gan symud o oren i wyrdd (y tro cyntaf ers 2016)
- Metrig 4: Perfformiad hunanadrodd oedd y gorau hyd yn hyn, a symudodd y metrig o oren i wyrdd
- Metrig 5: Cyflawnwyd 100% o gynlluniau gwella eu Cynllun Rheoli Asedau, felly arhosodd yn wyrdd
- Metrig 6: Cyflawnyd sgôr mynegai diogelwch cyflenwad o 100, felly arhosodd yn wyrdd

Dros yr ychydig dudalennau nesaf, mae gwybodaeth fwy manwl ar chwe metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol.

## Gwybodaeth gyfeirnodi ar yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Am fwy o fanylion ar fethodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a thabl o berfformiad y flwyddyn flaenorol, cyfeiriwch at yr atodiadau hyn:

- Mae **Atodiad 1** – tudalen 18 – yn esbonio'r fethodoleg rydym yn ei defnyddio i asesu perfformiad y cwmni
- Mae **Atodiad 2** – tudalen 20 – yn dangos sut mae Dŵr Cymru wedi perfformio yn erbyn metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ers 2011

# Digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddwyr, rydym yn ymateb i amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llygredd, a daw rhai o'r rhain o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar faint o ddigwyddiadau y mae pob cwmni dŵr yn gyfrifol amdanynt. Diben hyn yw hybu gostyngiad parhaus yn nifer y digwyddiadau llygredd, gyda'r nod o leihau digwyddiadau i sero yn y tymor hwy.


## Metrig 1 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)

Yn 2020, cafodd Dŵr Cymru y nifer lleiaf o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth Uchel-Isel (Categori 1-3) hyd yn hyn, gyda 77. O'r rheini, cafodd 76 effaith amgylcheddol Isel (Categori 3) a chafodd un effaith amgylcheddol Uchel (Categori 2).

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn normaleiddio nifer y digwyddiadau yn ôl cyfanswm hyd y carthffosydd (36,119 km), felly yn 2020 cyflawnodd y cwmni statws gwyrdd ar gyfer y metrig hwn:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2020 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** | Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a ddigwyddodd, o fewn Categori 1-3, yn ôl hyd y carthffosydd | 21 (Gwyrdd) |

Fel y dengys y graff isod, gwelwyd gostyngiad cyson o un flwyddyn i'r llall yn nifer y digwyddiadau llygredd rhwng 2011 a 2014. Wedyn, rhwng 2014 a 2019, roedd dim ond ychydig iawn o ostyngiad o 14 digwyddiad dros chwe blynedd. Felly, roedd yn galonogol gweld gostyngiad sylweddol o 17 digwyddiad yn 2020 (o 94 yn 2019 i 77 yn 2020), er mwyn cyflawni statws gwyrdd am y tro cyntaf.




| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel – difrifol (Categori 1) | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Uchel – sylweddol (Categori 2) | 2 | 6 | 2 | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 |
| Isel (Categori 3) | 236 | 193 | 120 | 104 | 107 | 105 | 101 | 98 | 94 | 76 |

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo yn y gorffennol i leihau digwyddiadau carthffosiaeth i 72 erbyn 2025 a, chyda nifer y digwyddiadau eisoes mor isel â 77, mae hyn yn rhoi Dŵr Cymru mewn sefyllfa dda i ganolbwyntio ymdrechion ar leihau nifer y digwyddiadau i sero yn y tymor hwy. Rydym yn disgwyl i'r cwmni ddefnyddio arfer da o ar draws y sector er mwyn lleihau llygredd yn barhaus.

## Metrig 2 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)

Mae'r metrig hwn yn edrych ar nifer y digwyddiadau llygredd difrifol. Fel y dangosir yn y graff uchod, roedd un digwyddiad carthffosiaeth difrifol yn 2020 a oedd ag effaith amgylcheddol Uchel (Categori 2).

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2020 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)** | Digwyddiadau Categori 1-2 fesul 10,000 km o garthffosydd | Faint o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth difrifol a ddigwyddodd, o fewn Categori 1-2, wedi'i normaleiddio yn ôl hyd y carthffosydd | 0.3 (Gwyrdd) |

Er bod y metrig yn wyrdd, mae'n siomedig y cafodd y cwmni un digwyddiad llygredd carthffosiaeth difrifol yn 2020 ar ôl heb gael un yn 2019. Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru fod ag awydd i wella er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddigwyddiadau carthffosiaeth difrifol yn 2021, gan ddefnyddio arfer gorau, megis adolygiadau ar ôl digwyddiadau, i sicrhau y gweithredir unrhyw welliannau yn dilyn unrhyw ddigwyddiad difrifol.

# Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyflwyno trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, sy'n cynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiadau fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunanfonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu am gydymffurfiaeth. Rydym yn disgwyl cydymffurfiaeth â holl amodau'r drwydded.


## Metrig 3 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)

Yn 2020, cyflawnodd Dŵr Cymru statws gwyrdd ar gyfer y metrig hwn, gan gydymffurfio â'r terfynau ansawdd dŵr ar ei drwyddedau rhifyddol ar gyfer gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr 99.7% o'r amser. Dyma welliant amlwg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol a dyma'r tro cyntaf y mae'r metrig wedi bod yn wyrdd ers 2016. Gwelwyd diffyg cydymffurfio mewn dau o'r 562 o weithfeydd trin carthion sy'n cael eu gweithredu gan Dŵr Cymru ac roedd pob yn o'r 35 o weithfeydd trin dŵr mawr y cwmni yn cydymffurfio.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2020 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)** | % | Canran y gydymffurfiaeth ymhlith gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr â therfynau ansawdd dŵr ar eu gollyngiadau | 99.7 (Gwyrdd) |

Fel y dengys y graff isod, mae perfformiad y cwmni ar y metrig hwn wedi amrywio am nifer o flynyddoedd, felly mae'n gadarnhaol gweld Dŵr Cymru'n cyflawno statws gwyrdd am y tro cyntaf ers 2016. Mae'n arbennig o gadarnhaol gweld yr holl weithfeydd trin dŵr yn cydymffurfio â'r terfynau rhifol yn eu trwyddedau.

**Nifer y gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr nad ydynt yn cydymffurfio a % y gydymffurfiaeth gyffredinol mewn safleoedd rhifol**




| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithfeydd trin dŵr sy'n methu | 9 | 10 | 3 | 10 | 10 | 5 | 0 |
| Nifer y gweithfeydd trin carthion sy'n methu | 5 | 8 | 3 | 10 | 2 | 6 | 2 |
| % y gydymffurfiaeth gyffredinol ag amodau gollwng | 97.8 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.2 | 99.7 |

Rydym am i Dŵr Cymru allu cynnal y lefel hon o berfformiad ac yn disgwyl i'r cwmni barhau i geisio cyfleoedd i fonitro a mynd ati'n rhagweithiol i fonitro a nodi gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr y gall eu perfformiad fod yn syrthio yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o gyflawni cydymffurfiaeth o 100% â'r metrig hwn cyn gynted â phosibl. Er nad yw Dŵr Cymru wedi cyflawni 100% ar unrhyw adeg, mae cwmnïau eraill yn y sector wedi cyflawni'r targed hwn.

Wedi'i gysylltu'n agos â chydymffurfiaeth rifol yw cydymffurfiaeth amodau disgrifiadol, lle mae gennym bryderon sylweddol yn dilyn perfformiad 2020. Mae'n bwysig bod lefelau uchel o berfformiad rhifol yn cael eu cynnal yn 2021, yn dilyn datrys y materion yn ymwneud ag amodau disgrifiadol rhaglennu, monitro a hysbysu yn 2020. Gweler tudalennau 11-12 am ragor o fanylion ynghylch cydymffurfio ag amodau disgrifiadol.

# Digwyddiadau hunanadrodd

Fel rheoleiddiwr, rydym am i gwmnïau dŵr hunanadrodd[2] gymaint o'r digwyddiadau llygredd â phosibl. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau'n well
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella'r lefelau hunanadrodd
- defnyddio ei ddata i nodi mannau peryglus a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau
- rhoi sylw ac ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl


## Metrig 4 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd

Mewn adroddiadau blaenorol, rydym wedi annog y cwmni i anelu at hunanadrodd am o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd; yn 2020, llwyddodd y cwmni i gyrraedd 80%:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2020 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd** | % | Canran y digwyddiadau llygredd y gwnaeth y cwmni hunanadrodd amdanynt | 80 (Gwyrdd) |

Fel y dengys y graff isod, roedd perfformiad y cwmni yn y metrig hwn wedi bod yn ansefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf felly mae'n gadarnhaol gweld bod gan y cwmni ei gyfradd uchaf o hunanadrodd hyd yn hyn, gan gyflawni 80% yn 2020 (ar ôl cwympo i oren yn 2019). Rydym yn disgwyl i'r cwmni gynnal statws gwyrdd ac rydym yn annog y cwmni i ystyried mentrau eraill a ddefnyddir ar draws y diwydiant er mwyn parhau i wella ei gyfradd hunanadrodd.

[2] I adrodd digwyddiad i ni, ffoniwch ein Llinell Gymorth Digwyddiadau ar 03000 65 3000.




## Metrig 5 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Mae'r metrig hwn yn ystyried sut mae Dŵr Cymru wedi cyflawni yn erbyn ei Gynllun Rheoli Asedau pum mlynedd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021. Mae'n ystyried canran y cynlluniau a gyflawnwyd o'u cymharu â'r rhai a gynlluniwyd rhwng 2020 a 2025.

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2020 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau’r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** | **% y gwaith cyflawni arfaethedig** | A yw Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn cael ei gyflawni fel y bwriadwyd ai peidio | 100 (Gwyrdd) |

Yn 2020/21, cyflawnodd Dŵr Cymru bob un o'r 23 o gynlluniau yn unol â’r bwriad – 22 yng Nghymru ac un yn Lloegr. Bydd y gwelliannau a gyflawnwyd gan y rhaglen yn golygu bod asedau'n cyflawni safonau uwch ac yn cyflenwi gwelliannau ansawdd dŵr. Rydym yn disgwyl Dŵr Cymru i gynnal statws gwyrdd ar gyfer 2021.

## Metrig 6 yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol: Mynegai diogelwch cyflenwad

Mae'r metrig mynegai diogelwch cyflenwad yn mesur i ba raddau y gall y cwmni sicrhau darpariaeth ei lefelau gwasanaeth pan geir cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr (e.e. gwaharddiadau defnyddio dros dro) os oedd y flwyddyn flaenorol yn un sych. Sgôr y mynegai diogelwch cyflenwad ar gyfer 2020 yw 100, felly mae metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn wyrdd:

| Metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol | Uned fesur | Beth mae'r metrig hwn yn ei olygu | Canlyniad 2020 (statws metrig) |
|---|---|---|---|
| **Mynegai diogelwch cyflenwad** | Sgôr mynegai diogelwch cyflenwad, uchafswm 100 | Pa mor dda fyddai wedi cyflawni ei lefelau gwasanaeth pe bai cyfyngiadau ar y cyflenwad dŵr oherwydd tywydd sych yn 2020 | 100 (Gwyrdd) |

# Metrig – wrthi'n cael ei ddatblygu:cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Yn dilyn ymgynghoriad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau gwaith i gyflwyno metrig perfformiad ychwanegol ar gyfer cwmnïau Cymru yn unig – cydymffurfiaeth ag amodau trwydded disgrifiadol. Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol fel cynnal a chadw, rheoli, ac adrodd.

Mae'r metrig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd felly gallwn sicrhau bod y metrig yn gadarn ac yn cael ei adrodd yn gywir. Byddwn yn parhau i adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn erbyn y 'metrig – wrthi'n cael ei ddatblygu' hwn bob blwyddyn ac rydym yn disgwyl gweld perfformiad yn gwella bob blwyddyn. Ein nod yw cyflwyno trothwyau perfformiad coch/oren/gwyrdd o ddechrau cyfnod adrodd nesaf yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2026-2030).

Gyda pherfformiad amodau disgrifiadol yn amlwg yn is nag ar gyfer amodau rhifol, roeddem am gael mwy o waith craffu ar amodau disgrifiadol.

Yn 2019, roedd 93% o safleoedd yn unig yn cydymffurfio â'u hamodau disgrifiadol, a oedd yn peri pryder inni.

Yn siomedig, yn 2020, cafodd Dŵr Cymru ddirywiad sylweddol yn ei berfformiad, gyda chydymffurfiaeth ag amodau disgrifiadol cyffredinol yng ngweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr yn gostwng i 63% yn unig. Allon o 858 o weithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr (safleoedd â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol), nid oedd 317 yn cydymffurfio.

Roedd diffyg cydymffurfio ymhlith y rhan fwyaf o'r 317 o safleoedd yn sgil achosion o dorri amodau mewn perthynas â gwaith monitro, adrodd a hysbysu ar gyfer rhaglenni hunanfonitro gweithredwyr, dŵr gwastraff trefol a monitro UV a nodwyd gennym yn ystod ein hasesiad cydymffurfiaeth. Roeddent naill ai Categori 3 neu 6 ar gyfer diffyg cydymffurfio.[3] Rydym yn ymchwilio i'r achos(ion) sylfaenol a'r amgylchiadau a arweiniodd at y swm sylweddol hwn o ddiffyg cydymffurfio ag amodau disgrifiadol; ar ôl i'r ymchwiliad hwn ddod i ben, byddwn yn gallu parhau â'r ymateb gorfodi mwyaf priodol.

Nodwyd nifer llai o achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod archwiliadau safle a gynhaliwyd gennym yng ngweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr y cwmni. Fodd bynnag, categoreiddiwyd chwech o'r achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio mewn Categori 2, gan fod potensial am effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo, gan amlygu maes sydd angen ei wella.

---

[3] Categorïau diffyg cydymffurfio yw'r ffordd rydym yn categoreiddio achosion o dorri amodau trwyddedau. Maen nhw ar raddfa rhwng 1 a 4:

- CCS1 – Difrifol: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith fawr, ddifrifol, barhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo
- CCS2 – Sylweddol: posibilrwydd o gael dylanwad neu effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo
- CCS3 – Mân: posibilrwydd o gael mân ddylanwad neu effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo neu ddylanwad neu effaith fach
- CCS4 – Dim effaith: achos o ddiffyg cydymffurfio ar safle rheoledig lle nad oes modd rhagweld y bydd yn cael unrhyw ddylanwad ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo

Ar gyfer cydymffurfiaeth ag amodau disgrifiadol yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r cwmni wneud y canlynol:

- cymryd camau gweithredu cyflym a chadarnhaol i sicrhau bod achos sylfaenol yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a welwyd yn 2020 yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl
- gweithio i wella ei berfformiad o ran amodau disgrifiadol fel y bydd yn alinio â lefelau cydymffurfio ag amodau rhifol
- gwella ei berfformiad cyffredinol ag amodau disgrifiadol yn 2021 bob blwyddyn (o'i gymharu â pherfformiad 2019), gan anelu at gydymffurfiaeth 100% cyn gynted â phosibl
- canolbwyntio ar roi diwedd ar yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio ag amodau disgrifiadol Categori 1 a 2 cyn gynted â phosibl, gan fod gan y rhain y potensial mwyaf ar gyfer effaith amgylcheddol ddifrifol

# Rhan 2: Perfformiad amgylcheddol ehangach Dŵr Cymru


Gan fod chwe metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn is-set o berfformiad amgylcheddol, mae nifer o feysydd gwaith monitro, adrodd a rheoleiddio eraill yr ydym yn eu cynnal mewn perthynas â gweithgareddau Dŵr Cymru, yr ydym yn manylu ar rai o'r rheini yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn. Mae rhai agweddau'n gysylltiedig yn agos â metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, megis digwyddiadau llygredd a chydymffurfiaeth, ac mae gan rai gwmpas ehangach.

## Digwyddiadau llygredd o asedau cyflenwad dŵr

Yn ogystal â digwyddiadau carthffosiaeth, rydym hefyd yn monitro nifer y digwyddiadau o asedau sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr yfed. Er nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn un o fetrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, maent yn agwedd bwysig ar berfformiad amgylcheddol. Mae'r digwyddiadau hyn yn aml yn cynnwys gollwng dŵr yfed sydd wedi'i drin yn rhannol neu'n llwyr o'u hasedau cyflenwad dŵr, megis gweithfeydd trin dŵr a systemau dosbarthu dŵr (prif gyflenwad dŵr). Gall y gollyngiadau gynnwys cemegion megis clorin, alwminiwm neu haearn; gallant yn aml ollwng ar gyflymder uchel, felly gallant achosi digwyddiadau llygredd mewn perthynas â gwaddodion yn y cwrs dŵr.

Yn 2020, roedd cyfanswm o 65 o achosion llygredd dŵr glân – roedd dau ohonynt yn sylweddol (Uchel / Categori 2) ac roedd 63 yn Isel / Categori 3:

**Nifer y digwyddiadau cyflenwad dŵr yn ôl blwyddyn**




| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchel – difrifol (Categori 1) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Uchel – sylweddol (Categori 2) | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 2 |
| Isel (Categori 3) | 14 | 10 | 6 | 6 | 2 | 4 | 0 | 6 | 11 | 20 | 26 | 63 |

Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer digwyddiadau cyflenwad dŵr yn siomedig. Rydym yn galw am gamau gweithredu brys gan y cwmni ar ôl y bumed blwyddyn yn olynol yn 2020 pan oedd cynnydd yn nifer y digwyddiadau o asedau cyflenwad dŵr, ac mae wedi bod dau ddigwyddiad difrifol bob blwyddyn am y tair blynedd ddiwethaf o asedau cyflenwad dŵr. Rydym yn croesawu cynnwys digwyddiadau difrifol o asedau cyflenwad dŵr ym metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol o 2021 er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y maes perfformiad hwn.

Roedd cyfran sylweddol o'r digwyddiadau yn sgil gollyngiadau "rhedeg i wastraff". Mae gollyngiad rhedeg i wastraff o waith trin dŵr yn digwydd pan nad yw dŵr yn addas i'w yfed gan bobl (h.y. bydd yn methu safonau ansawdd dŵr yr Arolygiaeth Dŵr Yfed) ac felly mae'n cael ei dynnu o'r broses drin a'i ollwng i gwrs dŵr. Gall gollyngiad fod yn swm sylweddol o ddŵr mewn cyfnod byr o amser (yn aml ar gyflymder uchel). Dylent fod yn ddigwyddiadau prin sy'n digwydd mewn argyfwng yn unig, ac nid gollyngiadau arferol. Rydym yn disgwyl i'r cwmni gydweithio â ni i wneud cais am drwyddedau amgylcheddol er mwyn cwmpasu'r holl ollyngiadau perthnasol cyn gynted â phosibl ac i weithio gyda ni i gasglu tystiolaeth ar effaith amgylcheddol.

Rydym yn disgwyl i'r cwmni leihau nifer yr holl ddigwyddiadau (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) i sero yn y tymor hir, heb unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn y tymor byr.

## Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin carthion

Darparodd Dŵr Cymru ddata Llif Tywydd Sych yn unol â gofynion ei drwydded. Adroddwyd bod chwech o weithfeydd trin carthion yng Nghymru a phedwar yn Lloegr wedi mynd y tu hwnt i'w terfynau trwydded Llif Tywydd Sych yn 2020, gan arwain at y safleoedd yn gollwng mwy o garthion a driniwyd nag a ganiateir. Mae'n ofynnol bod Dŵr Cymru yn cynnal ymchwiliadau ac adrodd am achos y gormodiant i ni a, lle y bo'n briodol, cwblhau camau adferol o fewn amserlen gytunedig.

Cafodd 11 o weithfeydd trin carthion yng Nghymru broblemau gyda data yn 2020 y mae'r cwmni'n ymdrechu i'w datrys.

Mae ymchwiliad ar y gweill i wyth o weithfeydd eraill yng Nghymru a dau yn Lloegr o ganlyniad i gwestiynau dros derfynau llif i driniaeth lawn (FFT) a ganiateir eu trwyddedau, sy'n golygu na allent fod yn trin y llif sy'n ofynnol gan eu trwyddedau.

Mae'r cwmni wedi gwneud cynnydd gyda'i system rheoli mewnol ar gyfer ardystiad MCERTS, system sy'n archwilio ac yn ardystio addasrwydd a chywirdeb ei offer monitro llif yn annibynnol. Nid oes unrhyw safleoedd ar hyn o bryd sy'n cael eu harchwilio ar gyfer methu ag ailardystio ar gyfer 2020.

## Gorlifoedd stormydd

Rydym yn asesu'r data ac yn parhau i ddatblygu ein dull rheoleiddiol tuag at orlifoedd stormydd. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r cwmnïau dŵr i leihau nifer y gollyngiadau o orlifoedd stormydd gyda dull sy'n seiliedig ar risg, casglu tystiolaeth ar gyfer effaith amgylcheddol, sicrhau trwyddedau rheoleiddiol cadarn, a gofynion adrodd er mwyn helpu i lywio cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol.

## Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Gwnaethom gynnal 14 o asesiadau cydymffurfio â thrwydded yn 2020, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg a mewn ymateb i hunan-adrodd gan y cwmni. Canfuom doriadau yn amodau'r drwydded mewn 11 o'r 14 o asesiadau. Mae hyn yn cymharu â deg achos o ddiffyg cydymffurfio allan o 35 o asesiadau yn 2019. Gan fod rhai o'n hasesiadau yn asesiadau dilynol, yn gyffredinol nid oedd wyth o'r safleoedd â thrwyddedau adnoddau dŵr yn cydymffurfio yn 2020 yng Nghymru a Lloegr.

Roedd pob un o'r 11 achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd o fewn Categori CCS3 neu CCS4,[4] ac er mai'r rhain yw'r categorïau isaf o ran risg amgylcheddol, rydym yn disgwyl gweld gwelliant o hyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol ac yn croesawu'r metrig cydymffurfio ag adnoddau dŵr sy'n cael ei gyflwyno gan yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn 2021.

## Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill.Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Cyhoeddwyd y cynllun rheoli adnoddau dŵr diweddaraf yn 2019 a chyhoeddwyd y cynllun sychder diweddaraf ym mis Mawrth 2021. Caiff y rhain eu cyhoeddi bob pum mlynedd. I gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Dŵr Cymru, gweler ei wefan:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr: https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/final-water-resources-management-plan-2019

- Cynllun Sychder 2020-2025: https://www.dwrcymru.com/cy-gb/our-services/water/water-resources/final-drought-plan-2020

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth:

- Cynllunio rheoli adnoddau dŵr: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/water/water-resource-management-planning?lang=cy

---

[4] Categorïau CCS (Cynllun Dosbarthu Cydymffurfiaeth) yw'r ffordd rydym yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio. Maen nhw ar raddfa rhwng 1 a 4. CCS1 yw'r mwyaf tebygol o gael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd ac mae CCS4 yn debygol o gael ychydig o effaith neu ddim effaith. Mae Categori CCS3 yn debygol o gael effaith fechan ar yr amgylchedd.

- Sychder: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/drought-planning-and-management/?lang=cy

- Canllawiau ar gynlluniau sychder: https://cdn.naturalresources.wales/media/684414/final-wc-drought-plan-guidance-2017.pdf?mode=pad&rnd=131656713580000000

## Gollyngiadau a defnydd o ddŵr

Mae Dŵr Cymru wedi adrodd dros dro ar gyfer 2020/21 mai'r defnydd cyfartalog y pen (PCC), sef faint o ddŵr y mae pob unigolyn yn ei ddefnyddio, oedd 175.98 litr y pen y dydd (l/h/d). Mae hyn yn gynnydd o'r cyfartaledd blynyddol blaenorol a adroddwyd, sef 160 l/h/d (a oedd y cyfartaledd uchaf yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn honno). Mae'r flwyddyn adrodd 2020/21 yn cyd-daro â dechrau'r cyfyngiadau symud a gwanwyn poeth a sych; gwnaeth y diwydiant dŵr yn ei gyfanrwydd brofi cynnydd mewn defnydd dŵr domestig yn ystod y cyfnod hwn. Adroddodd hefyd gyfradd ollwng o 163.2 megalitr y dydd (Ml/d) ar gyfer 2020/21, gostyngiad o'r flwyddyn flaenorol (167.96 Ml/d), sy'n dangos tuedd barhaus o leihau cyfraddau gollwng.

Rydym yn disgwyl i strategaeth effeithlonrwydd dŵr pum mlynedd y cwmni leihau defnydd cyfartalog y pen yn fuan, a fydd yn cynnwys newidiadau mewn ymddygiad cwsmeriaid, ymyriadau ffisegol (megis rheoli gwasgedd a dyfeisiau effeithlonrwydd dŵr), a chydweithio.

Rydym yn gweithio gydag Ofwat i gyhoeddi amrywiaeth eang o ddata cwmnïau dŵr, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd o ddŵr, a bydd y data hyn ar gael yn **discoverwater.co.uk**

## Slwtsh

Mae'r “metrig defnyddio slwtsh” wedi'i atal ar hyn o bryd o ran ei ddefnydio i gymhwyso sgôr “Coch Melyn Gwyrdd” fel metrig Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r diwydiant dŵr barhau i adrodd yn erbyn y metrig wedi'i atal gan fod gan y wybodaeth werth o ran parhad gwybodaeth. Nid yw'r ataliad cyfredol yn adlewyrchu ar berfformiad blaenorol neu gyfredol Dŵr Cymru o ran defnyddio slwtsh. Ni wnaeth adolygiad blaenorol o'r arferion defnyddio slwtsh dynnu sylw at unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r data yr adroddwyd arno. Mae Dŵr Cymru wedi parhau i storio slwtsh yn unol ag eithriad storio Adran 3 ac i ddefnyddio'r slwtsh yn unol â'r Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) (a Chynllun Sicrwydd Biosolidau'r diwydiant). Mae CNC a Dŵr Cymru wedi gweithio tuag at gytundebau ychwanegol i wella'r gofynion yn y rheoliadau presennol, e.e. prosesau hysbysu gwell. Ar hyn o bryd, dim ond yng Nghymru y mae hyn yn gweithredu.

Roedd 2020 yn flwyddyn a gyflwynodd heriau unigryw i'r sector hwn, gyda phandemig yn tarfu ar rwydweithiau cyflenwi i dir a mesurau i amddiffyn lledaeniad y feirws yn cael effaith logistaidd. Yn ogystal â hyn, roedd rhai digwyddiadau tywydd eithafol a oedd yn cyflwyno materion ar wahân. Mae'r digwyddiadau hyn wedi tynnu sylw at y ffaith mai ffocws allweddol ar gyfer y dyfodol fydd cyfleusterau storio slwtsh digonol wrth gefn. Bydd hyn hefyd yn cael ei yrru gan gyflwyno Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 o 1 Ebrill 2021 a'r gofyniad am fwy o reolaethau ar storio slwtsh ar dir amaethyddol yn barhaol a dros dro.

## Gorfodi (uwch na rhybudd)

Yn 2020, gwnaeth Dŵr Cymru dderbyn rhybuddiad ffurfiol ar gyfer difrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a ddigwyddodd yng Ngwaen Gynfi, Mynydd Llandygái, yn SoDdGA Eryri, ym mis Gorffennaf 2019, lle cyflawnodd droseddau o dan Adran 28P(2)(A) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Ni chafodd unrhyw gamau gorfodi yn uwch na rhybudd eu cymryd yn Lloegr yn 2020.

## Diogelwch cronfeydd dŵr

Ar ddiwedd 2020, roedd Dŵr Cymru yn rheoli 130 o gyforgronfeydd dŵr mawr (128 yng Nghymru, dau yn Lloegr), â chapasiti uwch sy'n fwy na 10,000 m3, yr ydym yn eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod camau gweithredu sylfaenol yn cael eu gweithredu er mwyn atal dŵr rhag gollwng allan o reolaeth ac arwain at lifogydd mewn cymunedau i lawr yr afon. Mae'r camau'n cynnwys penodi panel o beirianwyr cronfeydd dŵr arbenigol a gweithredu'n gyflym ar eu hargymhellion.

Mae'n rhaid i gronfeydd dŵr sydd wedi'u dynodi fel cronfa ddŵr uchel ei risg fod yn destun archwiliadau statudol cyfnodol a gweithredu'r argymhellion a wneir gan beiriannydd archwilio annibynnol. Rhaid i'r cronfeydd dŵr hefyd gael eu goruchwylio gan beiriannydd sifil cymwys ar bob adeg, a rhaid cadw cofnodion o'r brif wybodaeth a gweithgareddau monitro.

Mae lefelau cydymffurfio Dŵr Cymru wedi aros yn uchel. O 2021 ymlaen, byddwn yn adrodd metrigau manylach ar ddiogelwch cronfeydd dŵr er mwyn dangos y lefel o gydymffurfio â'n holl ddangosyddion diogelwch allweddol o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr, sydd fel a ganlyn:

(a) Penodi peiriannydd adeiladu neu beiriannydd goruchwylio
(b) Penodi peiriannydd archwilio
(c) Cwblhau mesurau i'w cyflwyno er budd diogelwch o fewn amserlenni statudol

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o ddiogelwch cronfeydd ddŵr gan DEFRA ac mae wedi'i gyhoeddi mewn dwy ran. Mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu'n sylweddol ar gyfer Lloegr, yn dilyn y digwyddiad mawr yng nghronfa ddŵr Toddbrook yn Whaley Bridge, ond mae'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr yn ddeddf sy’n berthnasol i Gymru a Lloegr ac, felly, credwn fod yr adroddiad yn berthnasol i'w ystyried yng Nghymru. Mae amrywiaeth eang o argymhellion sy'n codi o'r adroddiad ac maent yn gymhleth. Mae Dŵr Cymru yn aelod o weithgor CNC a fydd yn sicrhau gweithrediad yr argymhellion sy'n berthnasol i Gymru.

## Rheoli perygl llifogydd

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, caiff cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eu diffinio fel awdurdodau rheoli risg. Rhaid iddynt ymddwyn mewn modd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Genedlaethol ar gyfer Lloegr. Mae ganddynt ddyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau rheoli risg eraill yng Nghymru a Lloegr.

Bob ychydig o flynyddoedd, rydym yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol eu rheoli ledled Cymru ac ar y gweithgareddau sydd ar waith i godi ymwybyddiaeth y rhai hynny sydd mewn perygl a chynyddu eu cydnerthedd. Rydym yn gwneud hyn ar ran yr holl awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys felly Dŵr Cymru. Disgwylir yr adroddiad nesaf ym mis Hydref 2022 (dwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru) a bob dwy flynedd ar ôl hynny. Gweler ein tudalen we Perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru  am ragor o wybodaeth.

# Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2021

## Heriau a gyfer yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Wrth inni fynd i mewn i gyfnod newydd 2021-26 o'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, rydym yn disgwyl i'r cwmni wneud cynnydd cadarnhaol ar draws pob un o'r chwe metrig. Bydd y targedau newydd yn heriol i'r cwmni ac rydym yn disgwyl iddo weithredu mesurau i barhau i gyflawni statws cwmni uchel wrth inni symud i'r cyfnod newydd o'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Yn benodol:

- Parhau i leihau cyfanswm y digwyddiadau carthffosiaeth – gan anelu at sero yn y tymor hwy
- Atal yr holl ddigwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth a chyflenwad dŵr) yn y tymor byr
- Parhau i wella cydymffurfiaeth ag amodau rhifol ansawdd dŵr – gan anelu at 100%
- Sefydlogi a gwella'r drefn hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd
- Cynnal cyfradd gyflawni o 100% ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol
- Cynnal perfformiad ar y mynegai diogelwch cyflenwad

## Heriau ar gyfer perfformiad amgylcheddol ehangach

Fel yr amlinellir yn Rhan 2 o'r adroddiad, mae sawl maes arall o berfformiad amgylcheddol sydd angen eu gwella a chanolbwyntio arnynt, sef:

- Gwneud gwelliannau sylweddol wrth gydymffurfio ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr (metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol – wrthi'n cael ei ddatblygu), fel y manylir ar dudalennau 9-10
- Gwrthdroi'r duedd sy'n gwaethygu ar gyfer digwyddiadau cyflenwad dŵr, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau “rhedeg i wastraff”
- Gwella cydymffurfiaeth â thrwyddedau adnoddau dŵr (metrig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a gyflwynir yn 2021)
- Codi i ymateb i her gorlifoedd stormydd

# Atodiad 1: Methodoleg

## Y fethodoleg asesu perfformiad a ddefnyddiwyd gennym

Mae adroddiadau ar berfformiad cwmnïau dŵr yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar sail blwyddyn galendr.

Ers 2011, rydym wedi defnyddio'r un metrigau a dulliau asesu perfformiad amgylcheddol ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn golygu y gallwn adrodd a meincnodi perfformiad Dŵr Cymru'n gyson yn erbyn cwmnïau dŵr a charthffosiaeth mawr eraill yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn cyfuno ein data perfformiad yng Nghymru â'r hyn y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei gyflwyno i ni ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan Dŵr Cymru yn Lloegr. Mae'r adroddiad hwn felly yn adrodd ar berfformiad Dŵr Cymru yn ei gyfanrwydd.

Mae metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn mesur perfformiad sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- lleihau digwyddiadau llygredd a chynyddu nifer y digwyddiadau a adroddir gan y cwmni
- cydymffurfio â'r trwyddedau gollwng ar gyfer gweithfeydd trin carthion a dŵr
- cyflawni cynlluniau gwella'r amgylchedd
- cyflenwi cyflenwadau diogel o ddŵr ('diogelwch cyflenwad')

Ni fyddwn yn adrodd ar berfformiad gweithgareddau gwaredu slwtsh Dŵr Cymru ar gyfer 2020. Rydym wedi gohirio adrodd ar y metrig slwtsh ers 2018 wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol wedi'i osod dros gyfnod Cynllun Rheoli Asedau cyfredol y cwmnïau dŵr, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2020. Mae'r metrigau'n absoliwt yn hytrach na chymharol. Felly, dylai pob cwmni sy'n cael ei fesur yn erbyn metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol allu cyflawni perfformiad da yn erbyn y rhain erbyn 2020 neu cyn hynny.

## Adrodd yn y dyfodol

Rydym wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i adolygu metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2021 ymlaen ac yn ymgynghori'n allanol (gan gynnwys gyda'r holl gwmnïau dŵr). Rydym wedi cytuno i fabwysiadu'r un metrigau yng Nghymru â'r rhai yn Lloegr er mwyn ein galluogi i barhau i feincnodi Dŵr Cymru yn erbyn y naw cwmni dŵr a charthffosiaeth mawr eraill yn Lloegr. Rydym wedi penderfynu cynnwys 'metrig – wrthi'n cael ei ddatblygu' newydd yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer Dŵr Cymru yn 2020 (gweler tudalennau 11-12) ar gydymffurfio ag amodau disgrifiadol gan fod gennym bryderon yng Nghymru ynglŷn â pherfformiad yn y maes hwn.

Byddai'r holl newidiadau eraill i'r ffordd y byddwn yn asesu Dŵr Cymru yn erbyn metrigau newydd yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn cael eu hadlewyrchu yn 2022, pan fyddwn yn adrodd ar berfformiad y cwmni ar gyfer 2021.

# Atodiad 2: Crynodeb o berfformiad 2011-20 Dŵr Cymru yn yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r cwmni wedi perfformio yn erbyn y metrigau ers 2011:

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2015E[5] | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau llygredd (carthffosiaeth)** Digwyddiadau Categori 1-3 fesul 10,000 km o garthffosydd | 132 | 110 | 66 | 59 | 59 | 30 | 30 | 28 | 28 | 26 | 21 |
| **Digwyddiadau llygredd difrifol (carthffosiaeth)** Digwyddiadau Categori 1-2 fesul 10,000 km o garthffosydd | 2.2 | 3.3 | 1.1 | 2.2 | 1 | 0.6 | 0.6 | 0.3 | 0.8 | 0 | 0.3 |
| **Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng (gweithfeydd trin carthion a gweithfeydd trin dŵr)** % | 95.6 | 98.6 | 97.7 | 97.8 | 98.6 | 97.1 | 99.0 | 96.7 | 98.0 | 98.3 | 99.7 |
| **Defnyddio/gwaredu slwtsh yn foddhaol** % | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | Amherthnasol[6] | Amherthnasol[6] | Amherthnasol[6] |
| **Hunanadrodd digwyddiadau llygredd** % | 37 | 47 | 48 | 60 | 74 | 74 | 68 | 63 | 75 | 73 | 80 |
| **Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol** % y gwaith cyflawni arfaethedig | 87 | 116 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 99 | 100 | 100 |
| **Mynegai diogelwch cyflenwad** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 100 | 100 | 98 | 100 | 100 | 100 |
| **Sgôr seren y cwmni** | 1-seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 3-seren | 2-seren | 3-seren | 3-seren | 4-seren |

[5] Mae'r golofn o dan y pennawd 2015E yn cyfeirio at set ddata 2015, sydd wedi'i hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf newydd ar gyfer Asesiadau Perfformiad Amgylcheddol (2016-2020). Mae hon wedi'i chynnwys at ddibenion cymharu yn unig. Mae'r trothwyau Coch/Melyn/Gwyrdd yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd.

[6] Ni fyddwn yn adrodd ar berfformiad gweithgareddau gwaredu slwtsh Dŵr Cymru ar gyfer 2018-2020. Rydym wedi gohirio adrodd ar y metrig slwtsh dros dro wrth inni adolygu sut rydym yn asesu ac yn adrodd ar berfformiad yn gyson ar draws y cwmnïau dŵr ar y gweithgaredd hwn yn y dyfodol.

## Allwedd: Sgôr seren y cwmni

| | |
|---|---|
| 4-seren | Cwmni sy'n arwain y diwydiant |
| 3-seren | Cwmni da |
| 2-seren | Cwmni sydd angen ei wella |
| 1-seren | Cwmni sy'n perfformio'n wael |